

# Adroddiad Blynyddol Yr Iaith Gymraeg

2025-2026



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

Cyngor Sir Gâr  
**Carmarthenshire**  
County Council



Cyflwyniad.....	3
Crynodeb.....	5
Safonau’r Gymraeg .....	6
Adrodd ar Sgiliau Iaith.....	10
Cwynion a dderbyniwyd 2025-26 .....	17
Astudiaethau Achos .....	18
Astudiaeth Achos 1: Prentisiaid Amdani newydd.....	19
Astudiaeth Achos 2: Sesiynau Arwain Mewn Gwlad Ddwyieithog.....	22
Astudiaeth Achos 3 - Copilot ac AI Cymraeg.....	24
Astudiaeth Achos 4 - Partneriaeth Newydd gyda’r Ganolfan Ddysgu.....	26
Astudiaeth Achos 5 – Pentre Awel.....	28

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

Fel aelodau portffolio, rydym yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar y cyd. Yn dilyn newid deilydd portffolio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno ar ran y ddau ohonom. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud i hyrwyddo, diogelu a chryfhau'r Gymraeg ar draws ein sir, yn ogystal â'r heriau sydd o'n blaenau wrth i ni barhau â'r gwaith hollbwysig hwn.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a bywyd cymunedol Sir Gâr. Ein huchelgais yw sicrhau bod yr iaith yn fyw, weladwy a hygyrch ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus, gyda'r Cyngor yn arwain drwy esiampl.

Ym maes addysg, mae'r flwyddyn wedi bod yn un arwyddocaol. Yn 2025, lanswyd partneriaeth newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cefnogi datblygiad y Gymraeg o fewn ein gweithlu addysg. Nod y bartneriaeth yw darparu gwersi a sesiynau Cymraeg wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer staff addysg, gan gryfhau eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol o ddydd i ddydd ynghyd â sesiynau Cymraeg Cartref ar gyfer rhieni / gofalwyr a theuluoedd o fewn ysgolion yr awdurdod. Mae buddsoddi yn sgiliau ieithyddol ein gweithlu yn gam allweddol tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer system addysg ddwyieithog gadarn.

Yn ogystal, ar ddechrau 2026 agorwyd Canolfan Brienne yn Ysgol Bro Dinefwr - canolfan drochi Cymraeg newydd sbon ar gyfer dysgwyr oedran cynradd sy'n newydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ganolfan yn cynnig profiad trochi dwys, gan alluogi disgyblion i feithrin sgiliau iaith yn gyflym ac yn hyderus cyn dychwelyd i'w hysgolion. Mae'r datblygiad arloesol hwn yn gam sylweddol ymlaen wrth hyrwyddo nodau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Sir ac wrth sicrhau bod mwy o blant yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol.

Hoffem hefyd gydnabod y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud gan y Fforwm Strategol Sirol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Fforwm wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a gyrru cynlluniau gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-2028, gan sicrhau ffocws clir ar gynyddu defnydd dyddiol o'r iaith ar draws cymunedau'r Sir.

Yn yr un modd, mae Panel Ymgynghorol y Gymraeg wedi bod yn weithgar tu hwnt, gan ganolbwyntio a nifer o feysydd strategol pwysig. Trwy ddarparu cyngor, her adeiladol a mewnbwn arbenigol, mae'r Panel wedi cyfrannu'n sylweddol at gryfhau ein cyfeiriad strategol a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol ym mhob maes perthnasol.

Mae ymrwymiad, egni a chydweithrediad aelodau'r ddau gorff hyn yn dystiolaeth o'r ymdeimlad cryf o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros ddyfodol y Gymraeg yn Sir Gâr. Mae eu gwaith yn ategu ac yn atgyfnerthu blaenoriaethau'r Cyngor, ac yn allweddol i sicrhau cynnydd mesuradwy.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn drwy gryfhau partneriaethau, buddsoddi yn ein pobl, a chreu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol

bob dydd. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'n penderfyniadau strategol yn parhau'n flaenoriaeth glir.

Hoffem ddiolch i staff y Cyngor, ein hysgolion, ein partneriaid a'n cymunedau am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus. Trwy gydweithio, gallwn sicrhau bod Sir Gâr yn sir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac yn perthyn i bawb.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur arall yn 2026-2027.




**Cynghorydd Glynog Davies**

Aelod Cabinet dros Addysg




**Cynghorydd Carys Jones**


Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cymunedau a'r Gymraeg




372 o gyfarfodydd wedi defnyddio cyfieithu ar y pryd rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026.




88,412 o drigolion wedi ymweld â wefan y Cyngor drwy'r ochr Gymraeg yn y flwyddyn diwethaf.



Dros sampl o 3 bost ar ein cyfryngau cymdeithasol fe wnaeth 27,024 weld drwy'r Gymraeg, 62 o ryngweithiadau a 35 o gliciau cyswllt.



4,448,213 o eiriau wedi derbyn i gyfieithu'n ysgrifenedig rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026



5,461 o geisiadau cyfieithu ysgrifenedig wedi cyflwyno rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026

## Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol statudol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg. O dan ddarpariaethau'r Mesur, mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Sir Gâr i gydymffurfio â'r safonau penodol a bennir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn manylu ar y gofynion gweithredol y disgwylir i'r Cyngor eu bodloni mewn ystod eang o sefyllfaoedd, gan gynnwys darparu gwasanaethau, cyfathrebu â'r cyhoedd, llunio polisiâu a gweithdrefnau mewnol, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ei holl weithgareddau.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn gosod gofynion clir ar y Cyngor i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i weithredu egwyddorion cydraddoldeb ieithyddol yn gyson ar draws ei holl wasanaethau. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu dull rhagweithiol o ran hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg, drwy greu amgylchedd sy'n annog ac yn galluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu bywydau bob dydd, boed hynny wrth gael mynediad at wasanaethau, ymgysylltu â'r Cyngor, neu gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a dinesig.

### **Llywodraethu a Monitro Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Isadran Pobl, Digidol a Pholisi yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Mae'r Tîm Polisi a Chynnwys yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i holl adrannau'r Cyngor wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae'r tîm yn cydweithio'n agos gyda'r Uned Marchnata a'r Cyfryngau i sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chefnogi prosiectau a digwyddiadau sirol. Yn ogystal, mae'r tîm yn cefnogi Panel Ymgynghorol y Gymraeg ac yn paratoui adroddiadau rheolaidd i fonitro gweithrediad y Safonau.

### **Panel Ymgynghorol yr Aelodau**

Mae Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg yn darparu cyngor i'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg ar faterion sy'n ymwneud â datblygu a hyrwyddo'r iaith.

Mae'r Panel yn pennu rhaglen waith blynyddol sy'n nodi'r materion y maent yn dymuno eu trafod, ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd am y gwaith o hyrwyddo'r Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Panel wedi cyfarfod pum gwaith ac wedi trafod y materion canlynol:

- Prosiect Bro
- Gwariant cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o dan adran y cytundeb cydweithio Cyngor Sir Gâr
- Data Cyfrifiad 2021
- Pobl ifanc yn mudo a gadael cadarnleoedd ieithyddol
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- ARFOR
- Theatrau Sir Gâr.

Derbyniwyd cyflwyniadau ar Ddata Cyfrifiad 2021 ac yna'r cysylltiad gyda phobl ifanc yn mudo a gadael cadarnleoedd. Yn ôl data'r cyfrifiad mae poblogaeth Sir Gâr wedi parhau'n gymuned amrywiol, gyda thua 26% o'r boblogaeth dan 25 oed. Er hyn, mae tueddiad amlwg o bobl ifanc yn gadael y Sir er mwyn parhau ag addysg uwch neu gyfleoedd gwaith. Mae'r symudiad hwn yn golygu bod nifer o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn lleihau mewn rhai ardaloedd, gan herio sefydlogrwydd ieithyddol y gymuned. Er, rydym yn gwneud gwaith parhaus i gynnal a chefnogi'r cadarnleoedd hyn gan gynnwys ysgolion a chlybiau Cymraeg, gweithgareddau ieithyddol a phartneriaethau cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Rydym yn parhau i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ymhlith ein staff trwy amrywiaeth o ymgyrchoedd a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn, yn cydymffurfio â Safon Hyrwyddo Gwasanaethau (Safon 81). Bu'r ymgysylltiad gyda staff yn gyson trwy gylchlythyrau, gwybodaeth ar y fewnwyd a sesiynau anffurfiol i nodi rhai enghreifftiau. Cynhelir y Clwb Clebran yn fisol i staff dros yr awr ginio sydd yn gyfle anffurfiol i glywed ag ymarfer y Gymraeg, gydag amrywiaeth o siaradwyr a busnesau lleol o Sir Gâr yn cymryd rhan. Un o'r uchafbwyntiau oedd cael sesiwn gyda Sioned a Finn a fuodd ar y rhaglen deledu boblogaidd y BBC 'Race Across the World' y llynedd, lle fynychodd dros 30 o aelodau'r sesiwn i ofyn cwestiynau a deall mwy am eu taith.

Rhennir cylchlythyrau ar ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd arbennig megis Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Defnyddia dy Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth ac awgrymiadau ar sut i ddefnyddio a hyrwyddo mwy o'r Gymraeg yn y gweithle. Fe gynhaliwyd cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi eleni gan roi cyfle i staff ennill hamper o nwyddau Cymreig o Sir Gâr. Fe wnaeth dros 70 o staff gystadlu.

Buom yn hynod o ffodus i gydweithio gyda nifer amrywiol o sefydliadau ar brosiectau sydd wedi bod yn gyfle i ni rannu arferion da, gwybodaeth, adnoddau ynghyd â thrafod syniadau, materion ac atebion sydd o fudd i bob sefydliad law yn llaw a gwella gwasanaethau Cymraeg.

### Dydd Miwsig Cymru 2026

**Dydd Gwener, 13 Chwefror**, yw Dydd Miwsig Cymru – diwrnod cenedlaethol sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn i ddathlu a hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg, ym mhob genre, o bop a roc i hip-hop, gwerin ac electronig. Crëwyd y diwrnod i godi proffil artistiaid Cymraeg a dangos bod yr iaith yn perthyn i bob math o gerddoriaeth fodern a chreadigol.

Rydym yn eich annog i gymryd rhan drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg rhannu eich hoff ganeuon neu fandiau gyda chydwethwyr, neu hyd yn oed greu rhestr chwarae ar gyfer eich tîm neu adran. Mae'n gyfle gwych i ddathlu diwylliant Cymru ac i gefnogi'r byd cerddorol bywiog sydd gennym yng Nghymru.

Yn ogystal â dathlu, mae yna ddigwyddiadau cerddorol yma yn Sir Gâr ac ar draws Cymru drwy gydol mis Chwefror a all fod o ddi-ddordeb i chi a'ch teulu / ffrindiau.

I weld rhestr lawn o gigs, dyddiadau a lleoliadau lleol, gallwch ymweld â'r platform [Awni](#).



### "Rydwi am ddefnyddio mwy o Gymraeg... ond mae'n codi ofn arna i!"



Hoffech chi ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich gwaith, ond does dim hyder gyda chi i wneud hynny?

Beth am sefyll o flaen eich tîm a siarad ychydig mwy o Gymraeg, neu fynd i gyfarfodydd a chyflwyno'n ddwyieithog?

Rydyn ni'n siŵr eich bod chi wedi clywed hyn o'r blaen, ond... mae ymarfer wir yn gwneud

gwahaniaeth.

Rydyn ni wedi gwrandao ar eich adborth ac wedi trefnu cwpl o sesiynau i'ch helpu chi i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich gwaith.

Ewch i un o'r sesiynau newydd hyn i gael cyfle i ymarfer unrhyw waith sydd gyda chi, neu ryw-beth sydd ar y gweill. Mae hwn yn gyfle anffurfiol i chi ymarfer o flaen grŵp bach o bobl, mewn awyrgylch diogel, hamddenol a chefnogol — ac i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Ewch amdani — rhowch gynrig arni!

### Clwb Clebran gyda Fin a Sioned o raglen Race Across the World y BBC

I ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae eleni rydyn ni'n cynnal Clwb Clebran arbennig gyda Fin Gough a Stoned Cray – y pâr ieuengaf hyd yma sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen Race Around the World y BBC.

Roedd Fin a Sioned, sy'n dod o Nantgaredig, wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y gyfres ddiweddaraf, gan ennill calonau'r genedl gyda'u penderfyniadau, eu hiwmor a'u perthynas agos.

Bydd hwn yn gyfle gwych i gwrrd â nhw a chlywed am eu profiadau, yr hyn a ddysgon nhw ar hyd y ffordd a beth fydd nesaf i'r pâr!

Dewch i'r Clwb Clebran **ddydd Mawrth, 21 Hydref rhwng 12.30 a 1.30pm** ar Teams.

Os oes gennych gwestiwn, defnyddiwch y swyddogaeth 'sgwrsio' yn ystod y sesiwn neu e-bostiwch [iaithgymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithgymraeg@sirgar.gov.uk) cyn 20 Hydref.

Mae'r Clwb Clebran yn gyfle i chi glywed a siarad Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.



**Rhagor o wybodaeth**

### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi - 'Gwnewch y pethau bychain'

Wrth i ni agosáu at Ddydd Gŵyl Dewi, mae'n amser i ni fel Cyngor ddod at ein gilydd i ddathlu ein treftadaeth, ein diwylliant, a'r hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw.

Mae'r diwrnod yn ein hatgoffa o bwysigrwydd caredigrwydd, cydweithio, ac yn unol â chyngor ein Nawddsant i 'Wneud y pethau bychain', – sy'n gwneud gwahaniaeth mawr yn ein gwaith bob dydd.

Mae'r Gymraeg yn allweddol i hunaniaeth a diwylliant nifer o'n cymunedau, a gall nifer o bobl fynegi eu barn a'u hangenion yn well yn eu hiaith gyntaf. Mae yna gwnpiau o siaradwyr Cymraeg sydd wir angen derbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf er mwyn i'r gwasanaethau hynny fod yn effeithiol. Mae gennym ddyletswydd i hwyluso dewis iaith ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth. Cofiwch fod adnoddau i'ch helpu chi yn eich gwaith o ddydd i ddydd drwy ein tudalen [Gweithio'n ddwyieithog](#) ar y fewnwyd.

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni, rydym yn cynnig cyfle i un aelod llwus o staff ennill hamper llawn cynnyrch o Sir Gâr, gan gynnwys ffigwr crochenwaith Ladi Gymreig a grëwyd gan ein Hwb Sgillau.

I gael cyfle i ennill y wobr, atebwch y cwestiwn canlynol:

1. Beth yw enw'r brifddinas leiaf yng Nghymru?

E-bostiwch eich ateb i: [iaithgymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithgymraeg@sirgar.gov.uk) erbyn **dydd Gwener, 6 Mawrth**. Byddwn yn cysylltu â'r enillydd ddydd Llun, 9 Mawrth.

Gwnewch y pethau bychain. Pob lwel!



Isod gwelir crynodeb o rai prosiectau rydym wedi ymwneud â nhw:

➤ **Gwariant cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o dan adran y cytundeb cydweithio**

Derbyniwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad yr Iaith Gymraeg 2021 yn Sir Gaerfyrddin a'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol yng Nghymoedd y Gorllewin. Datblygwyd cynigion felly ar sail gwneud cynnydd yn erbyn amcanion ein Strategaeth Hybu 2023-28 sy'n cymryd i ystyriaeth canlyniadau Cyfrifiad 2021, gofynion o ran Safonau'r Gymraeg a chyswllt gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy Gynllun Llesiant Sir Gâr 2023-28. Canolbwyntiwyd ar bedwar prif faes: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; cynnal balchder a defnydd o'r iaith yn y gymuned; normaleiddio'r Gymraeg yn y gweithle; a chryfhau cymunedau Cymraeg.

Yn y maes **addysg**, darparwyd hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion a staff addysg i wella eu sgiliau Cymraeg, datblygu sgiliau llafar disgyblion, a chynyddu hyder rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gartref. Yn benodol yn ysgol Uwchradd Emlyn lle fuodd 8 athro a 4 aelod o staff cymorth yr ysgol yn ymgymryd a'r cwrs. Datblygwyd pecynnau adnoddau newydd, cynhaliwyd awdit o gymhwysedd iaith staff, a chefnogwyd cynorthwyrwyr addysgu fel modelau iaith.

Yn y **gymuned**, wnaeth y dair Fenter Iaith yn y sir drefnu sesiynau cerddoriaeth Cymraeg a digwyddiadau cymunedol ar draws y sir, gan arwain at gynnydd amlwg mewn defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ac at gryfhau ymdeimlad o berthyn a balchder lleol. Cynhaliwyd hefyd astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer Gŵyl Gerddoriaeth Gymraeg a phrosiect ymchwil yn Nyffryn Aman i ddeall arferion iaith pobl ifanc a chynllunio camau gweithredu pellach.

Yn y **gweithle**, cefnogwyd datblygiad Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor a chynhaliwyd sesiynau Arwain mewn Sefydliad Dwyieithog i'r Cabinet, Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenathiaid Gwasanaeth, gan godi ymwybyddiaeth ac adeiladu capasiti ar gyfer newid diwylliannol.

Yn gyffredinol, roedd y prosiectau'n llwyddiannus iawn, gyda lefel uchel o adborth cadarnhaol gan ysgolion, cymunedau a phartneriaid. Er nad yw'r effaith hirdymor iawn i'w weld eto, mae'r gwaith wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer camau pellach i gynyddu defnydd y Gymraeg ym mywyd bob dydd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc a theuluoedd.

➤ **Gweithdai Claremont – Gwella Mynediad at Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cwmni Claremont (trwy gefnogaeth Llywodraeth Cymru) wedi bod yn gwneud gwaith ar archwilio pam mae rhai rhieni'n dewis addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Dengys yr ymchwil fod dewisiadau ysgol yn aml yn cael eu dylanwadu gan bryderon ymarferol, camsyniadau ac emosiynau. Bu'r Cyngor yn rhan o brosiect ymarfer a hyfforddiant felly i ddylunio strategaethau cyfathrebu sy'n trafod blaenoriaethau rheini - hapusrwydd, cyfeillgarwch a chyfleusterau tra hefyd mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth.

Mynychwyd pedwar gweithdy a sesiwn hyfforddi dwyieithog. Defnyddiwyd enghreifftiau go iawn ac offer cydweithredol i arddangos yr heriau yn Sir Gâr a chreu atebion. Fe gynhyrchwyd cynlluniau wedi'u teilwra o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a fideos chwalu mythau i fentrau tymor hwy fel hyrwyddwyr rhieni a phartneriaethau ag ymwelwyr iechyd.

Fe wnaeth yr hyfforddiant rhoi hwb i hyder a sgiliau ein staff, yn enwedig wrth gymhwyso fframweithiau ymddygiadol. Yn dilyn ymlaen o'r sesiynau, mae llawer o waith da wedi cael ei wneud gan gynnwys lansio pecynnau cymorth ysgolion. Bellach mae ein strategaethau wedi'u hadfywio, cydweithio cryfach a datblygu adnoddau'n barhaus.

### ➤ **Thinqi**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gofod **Thinqi** (platfform dysgu a datblygu y Cyngor) wedi cael ei ddatblygu ar raddfa sylweddol o ran yr Iaith Gymraeg. Mae staff yn cael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd datblygu, gan gefnogi cynnydd gyrfaol, gwella cymhelliant a chryfhau gallu'r sefydliad i ymateb i heriau a blaenoriaeth newidiol. Yn benodol eleni, ochr yn ochr â'r rhaglen Cymraeg Gwaith, fe gafodd **leithGâr** ei lansio ar Thinqi sy'n System Rheoli Dysgu. Mae leithGâr yn gyfres o bodlediadau a gyflwynir gan Dr Hanna Hopwood i gefnogi staff y Cyngor ar eu taith gydag awgrymiadau ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Mae'r podlediadau yn dilyn y themâu isod:

- Pennod 1: Pryder Dysgu Iaith
- Pennod 2 : Strategaethau Dysgu
- Pennod 3 : Cymhelliant
- Pennod 4 : Arfer Gorau ar gyfer Dysgu Iaith

### Argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf

- **Cryfhau trefniadau llywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth gyson**  
Parhau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Safonau'r Gymraeg drwy atgyfnerthu rôl yr Isadrn Pobl, Digidol a Pholisi, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'n glir, dulliau monitro'n gyson, a bod adrannau'n derbyn arweiniad amserol ar ofynion y Safonau.
- **Parhau i gryfhau rôl a dylanwad Panel Ymgynghorol yr Aelodau**  
Parhau i gefnogi gwaith Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg, gan sicrhau bod ei fewnbwn strategol yn llywio blaenoriaethau'r Cyngor mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, yn enwedig o ran heriau tymor hir megis cynnal cadarnleoedd ieithyddol a phoblogaeth ifanc.
- **Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol yn unol â Safon 81**  
Parhau i ddatblygu a chefnogi gweithgareddau mewnol sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff, megis y Clwb Clebran, ymgyrchoedd mewnol a chyfleoedd anffurfiol i glywed ac ymarfer yr iaith, gan atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith naturiol gwaith.
- **Ehangu cydweithio a rhannu arfer da**  
Parhau i fanteisio ar gyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid allanol a sefydliadau eraill er mwyn rhannu arferion da, datblygu atebion ar y cyd a chryfhau'r dull strategol o weithredu Safonau'r Gymraeg ar draws y sir.

## Adrodd ar Sgiliau Iaith

### Cyflwyniad:

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau Dysgu a Datblygu sy'n ymwneud â datblygu sgiliau Cymraeg staff Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystod 2025–2026. Mae'n amlinellu proffil sgiliau iaith y gweithlu, y cyfleoedd dysgu a ddarperir i staff, a'r cynnydd a wnaed wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae datblygu sgiliau Cymraeg staff yn rhan bwysig o ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel i drigolion Sir Gaerfyrddin ac i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Trwy ddarparu cyfleoedd dysgu amrywiol, hyfforddiant dwyieithog ac adnoddau e-ddysgu, mae'r Cyngor yn cefnogi staff ar bob cam o'u taith gyda'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer parhau i ddatblygu sgiliau iaith a hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

### Trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg staff Cyngor Sir Gâr:

Ar draws y sefydliad mae 38.2% o staff yn siarad Cymraeg ar lefel 3 neu uwch yn ôl adroddiad chwarter 3. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol o'r gweithlu yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwaith.

Mae datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Gan bod yna ail-strwythuro wedi digwydd yn 2026, mae'r data ar gyfer 2025/2026 yn seiliedig ar yr adrannau newydd. Bydd hyn yn effeithio ar lefelau ieithyddol yr adrannau, ond ni fydd yn effeithio ar lefelau ar draws y sefydliad. Gweler Tabl 1 a 2 am fwy o fanylion.

Mae'r ffigurau yn Nhablau 1 a 2 yn dangos cynnydd cadarnhaol a chyson ar draws Lefelau 1–4, gan adlewyrchu'r cynnydd parhaus yn nifer y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant yn y Gymraeg dros y blyneddau diwethaf. Mae cynnydd nodedig i'w weld ar Lefel 5+ (+219). Fodd bynnag, mae'n debygol bod hyn wedi'i ddylanwadu gan newidiadau sefydliadol, gan gynnwys ailddosbarthu rhai aelodau o staff o rolau ysgol i rolau corfforaethol yn dilyn ailstrwythuro. Yn ogystal, mae'n bosibl bod gweithgarwch archwilio sgiliau parhaus ar draws timau wedi cyfrannu at adnabod a chofnodi lefelau uwch o hyfedredd yn y Gymraeg yn fwy cywir.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigurau a gyflwynir yn cynrychioli cyfanswm cyfan y gweithlu yng Nghyngor Sir Caerfyrddin (ac eithrio ysgolion). Mae'r data'n adlewyrchu'r staff sydd â lefel Cymraeg wedi'i chofnodi rhwng Lefelau 1–5 ar ein system ResourceLink. Felly, dylid gwneud cymariaethau'n ofalus. Mae cyfran sylweddol o'r staff, sef dros 1000 o unigolion, sydd yn bennaf yn gofnodi hanesyddol, heb unrhyw lefel Cymraeg wedi'i gofnodi ar hyn o bryd. Bydd mynd i'r afael â'r bwch data hwn yn hanfodol wrth symud ymlaen er mwyn cefnogi monitro, adrodd a chynllunio strategol sgiliau Cymraeg ar draws yr awdurdod yn fwy cywir.

Tabl 1: Sgiliau iaith staff Cyngor Sir Gâr fesul adran sydd wedi'u recordio ar ResourceLink

Ddim yn cynnwys ysgolion (Cynradd, Uwchradd, Arbennig, Gwirfoddol a Gynorthwyr)

		L1	L2	L3	L4	L5
<b>Prif Weithredwr</b>	<b>318</b>	91	48	42	52	85
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>	<b>215</b>	61	47	25	39	43
<b>Addysg a Hamdden</b>	<b>1209</b>	408	233	182	126	260
<b>Lle, Seilwaith a Datblygiad Economaidd</b>	<b>809</b>	263	136	123	123	164
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai</b>	<b>1925</b>	776	402	250	189	308
	<b>4476</b>	<b>1599</b>	<b>866</b>	<b>622</b>	<b>529</b>	<b>860</b>

Data: ResourceLink 17/02/2026

Tabl 2: Sgiliau iaith staff Cyngor Sir Gâr sydd wedi'u recordio ar ResourceLink

	2023-2024	2024-2025	2025 - 2026	Gwahaniaeth
Lefel 1	1619	1576	1599	+23
Lefel 2	822	815	866	+51
Lefel 3	582	596	622	+26
Lefel 4	499	485	529	+44
Lefel 5+	849	641	860	+219
Cyfanswm	4371	4113	4476	

## Dysgu a Datblygu:

### Dysgu Cymraeg:

Mae dysgu Cymraeg yn cael eu ddarparu yn rhithiol gyda mwy o ddsbarthiadau wyneb yn wyneb yn cael eu ail-gyflwyno. Ond mae'r fwyafrif o staff dal yn mynychu gwersi ar-lein. Yn fras, mae ein staff yn dysgu trwy un o'r dulliau isod:

- Cyrsiau rhithiol prif ffrwd ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Cyrsiau Preswyl gyda Nant Gwrtheyrn
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Say Something in Welsh

Gweler hefyd, bod staff yn defnyddio dulliau mwy anffurfiol ar y cyd â un o'r llwybrau uchod, fel DuoLingo, Podlediadau a YouTube.

Yn gyfan gwbl, mae yna nifer o gyfleoedd ar gyfer pob lefel o 0-5 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Tabl 3 isod yn nodi fod **219** o staff yn ymrwmo i ryw fath o gwrs ers Ebrill 2025. Mae hyn yn cynnwys, Cymraeg Gwaith a Phrif Ffrwd, ag amryw o gyrsiau 1-dydd i gyrsiau 1 blwyddyn.

Gyda'r prif gyrsiau, mae'n cymryd tua 120 awr o ddysgu i gyrraedd y lefel nesaf, mae ein staff yn ymrwymo mewn cyrsiau a phatrymau dysgu gwahanol. Mynychwyd rhai ohonynt yn wythnosol rhwng 2 a 4 awr, ag yna rhai am wythnos dwys neu ddysgu cyfunol sef cyfuniad o dysgu ar-lein ag hunan astudio.

Yn ystod y flwyddyn yma, roeddem yn llwyddiannus iawn i dderbyn cyllid o'r Ganolfan Dysgu Gymraeg i gyflogi tiwtor trwy Brifysgol Aberystwyth. Yn anffodus, cafodd oriau'r tiwtor eu lleihau ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Ond mae 73 aelod o staff dal wedi elwa o wahanol gyrsiau Cymraeg Gwaith. Derbyniwyd arian ychwanegol i ddarparu hyfforddiant i 17 o'n prentisiaid rhaglen Amdani. Gwnaethon nhw fynychu cyrsiau trochi wedi eu teilwra i'w anghenion dysgu ar gyfer codi hyder, defnyddio mwy o'r Gymraeg yn y gwaith, ac i adeiladu dealltwriaeth sylfaenol o'r iaith. Hefyd, trwy gyllid ychwanegol mewn partneriaeth gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) rydyn wedi derbyn tiwtor i gefnogi ein staff gyda eu hyder ar sail 1-1 wythnosol am 12 wythnos.

#### leithGâr:

Eleni hefyd yw'r flwyddyn gyntaf i ni adrodd ar ein cynllun newydd, leithGâr. Datblygwyd y cynllun leithGâr er mwyn cynnig llwybr hyblyg i staff ddatblygu sgiliau Cymraeg yn eu hamser eu hunain, gan gefnogi'r rhai sydd ar ddechrau eu taith iaith yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno mireinio eu sgiliau.

Mae dau gwrs e-ddysgu ar gael i'n staff ar blatfform Thinqi. Mae leithGâr Croeso yn helpu staff i gyrraedd Lefel 1 drwy eu croesawu i'r Gymraeg, gan gyflwyno Cymraeg sylfaenol a rhoi dealltwriaeth iddynt o gyfarchion a geirfa bob dydd. Mae leithGâr Uwch yn rhoi'r cyfle i siaradwyr mwy hyderus ymgymryd â chwrs ar-lein i fireinio eu sgiliau iaith, drwy gyfarwyddo â gramadeg y Gymraeg ac adolygu elfennau pwysig o'r iaith.

Nodir y cyrsiau yma yn Tabl 3 isod, gyda ffigyrau o'n staff sydd wedi cofrestru ar gyrsiau i ddysgu Cymraeg. Nodwch, gyda'r cyrsiau hir tymor, nid yw'r ffigyrau ar gael o'r rhai sydd wedi cwblhau, dim ond cofrestru.

Tabl 3: Cyrsiau Dysgu Cymraeg staff Cyngor Sir Gâr 2025 – 2026

Cwrs Dysgu Cymraeg	Dull	Nifer
leithGâr: Cymraeg Uwch	Thinqi	8
leithGâr: Croeso (Lefel 1)	Thinqi	57
Croeso Cymraeg	Hunan astudio – Dysgu Cymraeg	10
Say Something in Welsh	Hunan Astudio Arlein	5
Blasu	Cwrs Cymdeithasol	2
Mynediad 1&2	Hunan Astudio	5
Mynediad 1 & 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	13
Mynediad 1	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	6
Mynediad 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	9
Sylfaen 1	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	11
Sylfaen 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	9
Sylfaen 1 & 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	19
Canolradd 1	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	11
Canolradd 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	1
Canolradd 1 & 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	18
Uwch 1	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	3

Uwch 2	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	2
Uwch 3	Dysgu Cymraeg Prif Ffrwd a Chymraeg Gwaith	1
Gloywi	Cymraeg Gwaith	13
Grŵp Codi Hyder	Cymraeg Gwaith	16
Grwp Codi Hyder	Cymraeg Gwaith	
<b>Cyfanswm:</b>		<b>219</b>

### Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ag yn ddwyieithog:

Mae darparu hyfforddiant yn ddwyieithog yn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn rhoi hyder i staff ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun proffesiynol. Mae'r dull yma wedi derbyn adborth positif wrth ein staff, wrth iddyn nhw glywed mwy o'r iaith mewn sefyllfa gwaith.

Dyma'r sesiynau sydd wedi cael eu darparu yn ddwyieithog:

- Arwain Mewn sefydliad ddwyieithog – Dysgu a Datblygu
- Arwain Mewn sefydliad ddwyieithog – Academi Arweinyddiaeth
- Cefnogi Prentisiaid Mewn Sefydliad ddwyieithog
- Gweithio'n ddwyieithog
- Cadeirio'n ddwyieithog
- Cymraeg mewn gofal.

Rydyn hefyd wedi dechrau sesiynau 'Ymwybyddiaeth iaith / Cymraeg mewn gofal' yn sesiynau sefydlu gyda gofalywr. Mae hyn wedi bod yn hynod o lwyddiannus lle mae'r sesiynau yn cael eu darparu yn ddwyieithog ac yn sôn am yr iaith, a ymrwymiad Cyngor Sir Gâr i helpu staff gyrraedd y lefel angenrheidiol ar gyfer y rôl, ond yn bwysicach oll i drafod y pwysigrwydd o'r iaith yn y maes gofal. Yn ogystal, rydyn ni hefyd wedi dechrau sesiynau 'Gweithio mewn sefydliad ddwyieithog' sydd yn amlinellu yr hyn rydyn yn trio cyflawni ond hefyd sôn am 'daith bawb gyda'r iaith' a bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Mae'r sesiynau gyda arweinydd wedi bod yn ddiddorol, a nodwyd adborth bod y sesiwn yn annog mwy o ddefnydd naturiol o'r iaith o fewn cyfarfodydd eu timoedd. Darperir y sesiynau yma yn ddwyieithog.

Hefyd gyda aseswyr iaith yn cael eu penodi ym mhob adran, rydyn ni wedi bod yn darparu sesiynau hyfforddi 'Aseswyr iaith' a 'Mentora' trwy gyfrwng y Gymraeg, mae hyn hefyd wedi bod yn ddefnyddiol i godi hyder staff i weithio a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Tabl 4 yn amlinellu'r sesiynau gyfrwng Cymraeg a ddarparwyd ers Ebrill 2025.

Tabl 4: Cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

Cwrs	Nifer
Hyfforddiant Aseswyr iaith	28
Mentora	14

### E-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Gwnaeth 163 o gyrsiau cael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg eleni ar Thinqi, Tabl 5. O gymharu â 73 llynedd, mae hyn yn gynydd sylweddol o **123%**. Gweler isod ar Tabl 5 fwy o fanylder.

Mae hefyd yn bwysig nodi er nad yw'r cynnwys yn cael ei ddarparu mewn un iaith, mae rhan fwyaf o gyrsiau yn cynnwys y Gymraeg ac yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu

Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawi pawb yn ddwyieithog ac yn apwyntio hyfforddwr Cymraeg fel bo angen.

O ran hyfforddiant i'r Aelodau, mae'r adnoddau yn ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau yn un iaith Gymraeg a rhai yn ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yn Gymraeg a rhan yn Saesneg. Yn ogystal, ar draws Dysgu a Datblygu cynigwyd grwpiau trafodaeth Cymraeg i'n staff yn ystod ymarferion gweithdai.

*Tabl 5: Manylion cyrsiau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 2025-2026*

Grŵp Diogelu A	10
Ymwybyddiaeth VAWDASV: Grŵp 1	9
Iechyd Meddwl yn y Gweithle	7
Diogelu Data: Cyflwyniad	8
Ymwybyddiaeth o Dwyll	11
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	5
Ymwybyddiaeth seiber yn y gweithle	11
Chwythu'r chwiban	5
Sefydlu Gweithwyr Newydd	4
Safonau Ymddygiad yn y Gweithle	5
Dysgu Hanfodol	10
Atal: Atal Radicaleiddio Ar-lein - Cefnogi Rhieni/Gofalwyr ac Ymarferwyr Cymorth Cynnar	3
Masnacheiddiwch	2
VAWDASV Gofyn a Gweithredu: Grŵp 2 (Ysgolion)	2
Llywio'r Byd Ar-lein: 10 Awgrymiadau ar gyfer Datrys Problemau ar y Rhyngwrwyd	2
Cynllunio ar gyfer Aelodau nad ydynt yn Cynllunio	2
Cyllid Llywodraeth Leol	2
Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI)	2
Llywio YouTube ar gyfer Llwyddiant Datrys Problemau: 10 Awgrym i Staff	2
Atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle	2
Mentor Digidol	2
Modiwl 1: Deall Awtistiaeth (Lefel 1)	2
03 Sero Net Carbon	2
Rheoleiddwyr Allanol	2
Diogelwch Personol	2
Deall Cwestiynau Cyffredin (FAQs)	1
Llysgennad Twristiaeth Sir Gaerfyrddin 2 - Arian	1
Datrys Problemau Digidol	1

Gordewdra Plentyndod - Gweithgarwch Corfforol	1
Arhoswch yn Ddiogel Ar-lein: Cydnabod 10 Sgam Cyffredin	1
Ymwybyddiaeth o Ddementia	1
Deall Sero Net a'n Dull	1
Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Oedolion	1
Rhianta Corfforaethol, Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed	1
Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân	1
Llysgennad Twristiaeth Sir Gaerfyrddin 3 - Aur	1
CLILC (Aelodau) Moeseg a Safonau	1
Anawsterau Dysgu Penodol: Llythrennedd a Rhifedd	1
06 Cyd-destun Cyngor Sir Gaerfyrddin	1
Cymryd yr Awenau: Canllaw i Reolwyr Newydd	1
Grŵp Diogelu B	1
Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio	1
CLILC (Aelodau) Craffu Effeithiol	1
10 Awgrymiadau Cyflym ar gyfer Cyfrineiriau Diogel	1
Canllaw i Fentora Eraill	1
Modiwl 4: Deall ADHD	
Cymuned Ymarfer Niwroamrywiaeth - Ffocws Synhwyrdd	1
Arwain Trwy Newid	1
CLILC (Aelodau) Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	1
Gwytnwch Personol	2
Modiwl 3: Deall Asesu ac Awtistiaeth (Lefel 2)	1
Seiberddiogelwch i Aelodau	1
Cydnabod a Chefnogi Gofalwyr	1
Cydraddoldeb	1
CLILC (Aelodau) Cyflwyniad i Gynllunio	1
Peidiwch â chael eich bachu 10 ffordd i weld e-bost gwe-rwydo	1
Llysgennad Twristiaeth Sir Gaerfyrddin 1 - Efydd	1
Polisi Cwynion	1
Ymwybyddiaeth o Asbestos (iHasco)	1
Deall Syndrom Tourette	1
6 Awgrymiadau ar gyfer Defnyddio Peiriannau Chwilio	1
Arwain gyda deallusrwydd emosiynol	1
Sut i fod yn gynghreiriad dros amrywiaeth a chynhwysiant	1

Diogelwch Ar-lein	1
Sefydlu Cyfamod y Lluedd Arfog	1
Modiwl 2: Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth (Lefel 1)	1
	163
Y nifer sydd wedi cwblhau'r modiwl Ymwybyddiaeth iaith	3953

Data: Thinqi 03.2026

### Safonau 128 a 152

*Mae Safon 128 yn gofyn i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.*

*Mae Safon 152 yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynhigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.*

### Argymhellion ar gyfer y Flwyddyn Nesaf

- **Ehangu cyfleoedd dysgu Cymraeg** – parhau i hyrwyddo cyrsiau Dysgu Cymraeg, Cymraeg Gwaith a'r cynllun IeithGâr er mwyn cynyddu nifer y staff sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg ar bob lefel.
- **Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle** – datblygu mwy o gyfleoedd anffurfiol megis mentora iaith, grwpiau trafod a sesiynau "Codi Hyder" i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu gwaith bob dydd.
- **Cryfhau rôl arweinwyr a rheolwyr** – annog arweinwyr gwasanaethau i hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn eu timau a chreu amgylchedd gwaith lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio.
- **Ehangu darpariaeth hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg** – parhau i gynyddu nifer y cyrsiau a'r adnoddau e-ddysgu sydd ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
- **Gwella prosesau a monitro data sgiliau iaith** – parhau i ddatblygu a diweddarau prosesau a systemau sy'n cofnodi sgiliau iaith ein staff. Gwella cofnodion er mwyn gallu cynllunio hyfforddiant yn fwy effeithiol a sicrhau bod gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion ieithyddol y cyhoedd.

## Cwynion a dderbyniwyd 2025-26

Mae'r adborth a gawn gan ein trigolion yn hanfodol ar gyfer gwella ein gwasanaethau a rydym yn gwneud pob ymdrech i ddysgu o'r holl gwynion, canmoliaethau a sylwadau a gawn fel Cyngor. Mae'r Tîm Cwynion Corfforaethol yn rheoli unrhyw gwynion a dderbynnir am ddiffyg cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu gan Gomisiynydd y Gymraeg a'u swyddfa.

Yn ystod 2025-26, aeth tri chwyn yn uniongyrchol at Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac fe benderfynwyd i gynnal ymchwiliad i ddau ohonynt

<b>1</b>	<p>Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am fethiant Cyngor Sir Gâr i ddarparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y llinell ffôn Theatrau Sir Gâr, a llinell swyddfa'r Cyngor gan dderbyn ymateb yn Saesneg. Ni chafodd gynnig rhagweithiol i siarad gyda rhywun yn Gymraeg.</p> <p>Dywedwyd yn ogystal nad yw'r cyfeiriad canlynol ar gael yn Gymraeg: direct@carmarthenshire.gov.uk</p> <p>Y gofynion perthnasol o dan sylw'r ymchwiliad oedd safonau 8, 9, 10 a 81.</p> <p>Ar ôl ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad, penderfynwyd fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau 9, 10 ac 81. Sail y penderfyniad oedd bod y Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>i ddim wedi rhoi gwybod i'r galwr ar y ffôn bod gwasanaeth Cymraeg ar gael</li><li>ii na dderbyniodd yr achwynydd wasanaeth ffôn yn Gymraeg pan ffoniodd Ganolfan Gyswllt y Cyngor ar 12 Mawrth 2025</li><li>iii na wnaeth y Cyngor hybu a hysbysebu'r gwasanaeth e-bost yn Gymraeg drwy fethu a darparu cyfeiriad Cymraeg i'r achwynydd.</li></ul> <p>Nid oedd Swyddfa'r Comisiynydd o'r farn bod methiant i gydymffurfio gyda safon 8 ar y sail y cyfarchwyd yr achwynydd yn Gymraeg ar y ddau achlysur y bu iddynt ffonio'r Cyngor.</p> <p>Fel rhan o'r argymhellion, rydym wedi cydweithio gyda'r Uned Marchnata a'r Cyfryngau a Thîm y Mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau. Rydym hefyd wedi recriwtio staff newydd i weithio yn y tîm tu blaen yn y theatrau, fel bod sgiliau iaith ychwanegol mewn lle.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Cwynion Corfforaethol a gwasanaethau unigol i sicrhau bod dewisiadau iaith yn cael eu parchu'n gyson, a bod dysgu o gwynion yn cael ei ddefnyddio i wella profiad y cyhoedd wrth gael mynediad at wasanaethau Cymraeg. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg ac i wella ansawdd gwasanaethau dwyieithog.</p>
<b>2</b>	<p>Derbyniwyd cwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â gohebiaeth Saesneg yn unig gafodd ei anfon at unigolyn ynghylch archeb at yr adran gwasanaethau gwastraff, ond drwy'r Ganolfan Gyswllt.</p> <p>Cydnabuwyd ein bod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Safonau a rhoddwyd camau gweithredu mewn lle ar unwaith, er mwyn atal sefyllfa fel hon rhag codi eto.</p> <p>Nododd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n debygol y byddai ymchwiliad yn canfod bod methiant i gydymffurfio wedi bod. Fodd bynnag, nid oeddent o'r farn bod angen cynnal ymchwiliad er mwyn gosod camau gorfodi gan ein bod eisoes wedi cymryd camau o'n gwirfodd i sicrhau na fydd yr un methiant yn digwydd eto.</p>

	Yn dilyn yr ymchwiliad, mae'r Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau wedi cynnal cyfarfod gyda'r goll staff o ran y gofynion gan atgoffa pawb o'u cyfrifoldebau. Bydd y Rheolwr hefyd yn monitro ymatebion i ymholiadau'r cyhoedd.
<b>3</b>	<p>Cwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn honnu nad yw'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau ar y Gymraeg wrth lunio'r polisi i gau Ysgol Llansteffan.</p> <p>Bydd yr ymchwiliad yn dyfarnu a yw'r corff wedi methu â chydymffurfio â Safon 88, 89 a 90 o ran llunio polisi.</p> <p>Mae'r Ymchwiliad ar waith wrth i ni gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.</p>

### Argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf

- **Cryfhau gwasanaethau ffôn Cymraeg** - sicrhau bod pob galwad ffôn yn cael ei hateb yn ddwyieithog ac yn cynnwys cynnig rhagweithiol clir o wasanaeth Cymraeg, gan gefnogi hyn drwy hyfforddiant staff a monitro ansawdd galwadau yn rheolaidd.
- **Gwella hygyrchedd gwasanaethau e-bost Cymraeg** - sefydlu a hyrwyddo cyfeiriadau e-bost Cymraeg penodol ar gyfer gwasanaethau, a sicrhau bod pob gohebiaeth yn parchu dewis iaith y derbynnydd drwy wella systemau mewnol a chynnal gwiriadau cyn anfon
- **Sicrhau gohebiaeth ddwyieithog gyson** - rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau cysondeb llawn yn y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg, gan atgyfnerthu hyn drwy hyfforddiant staff ac archwiliadau rheolaidd o ohebiaeth adrannol.
- **Integreiddio'r Gymraeg mewn datblygu polisiau** - sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn wrth ddatblygu polisiau a chryfhau'r broses o asesu effaith ar y Gymraeg, gan sicrhau ei bod yn digwydd yn gynnar ac yn cael ei hymgorffori'n ystyrlon mewn penderfyniadau.

## Astudiaethau Achos

### Astudiaeth Achos 1: Prentisiaid Amdani newydd

#### Cefndir

Ar ddiwedd 2025, fe hysbysebwyd llu o swyddi Prentisiaid drwy Raglen Brentisiaeth Amdani. Mae'r rhaglen â'r nod i roi cyfle i brentisiaid ennill, dysgu a datblygu sgiliau gwerthfawr wrth weithio mewn amrywiaeth o adrannau'r Cyngor – gan hyrwyddo a chefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle ar yr un pryd. Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel, mae'r rhaglen yn annog prentisiaid i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg fel rhan hanfodol o'u rolau.

Mae ein prentisiaid yn cael eu mentora gan staff profiadol tra yn treulio cyfran o'u hamser yn mynychu hyfforddiant gyda darparwyr lleol i ennill y sgiliau sydd angen tuag at eu cymhwyster. Mae'r rhaglen ar gyfer unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn, sy'n dechrau eu gyrfa neu'n chwilio am newid. Am y tro cyntaf, dynodwyd pob rôl prentis ar Lefel 3 y Gymraeg, gydag asesiad wedi'i ymgorffori yn y broses recriwtio.

Dywedodd Wendy Walter, Prif Weithredwr bod *“Rhoglen Brentisiaeth Amdani yn ffordd wych o feithrin talent leol a chryfhau ein gweithlu dwyieithog. Rydyn ni'n falch o fuddsoddi yn ein pobl a darparu cyfleoedd ystyrlon i unigolion ddatblygu gyrfa sy'n rhoi boddhad yma yn Sir Gaerfyrddin”*.




#### Gweithredu

Hysbyswyd y swyddi ar wefan 'Amdani' a hefyd ar wefan gorfforaethol y Cyngor. O ran plattfformau ehangach, defnyddiwyd Lleol.Net gan mai dyma'r wefan Cymraeg mwyaf prysur ac adnabyddus dwyieithog. Trefnwyd ymgyrch marchnata benodol i rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol fel y gwelir isod.

Bu'r ffair gyrfaedd yn lwyddiant mawr wrth hysbysebu'r swyddi ac fe gafwyd lawer o ymgysylltu positif. Roedd y ffeiriau yn rhoi cyfle i'r unigolion ddod mewn i siarad gyda aelodau o staff Dysgu a Datblygu yn ogystal â staff o fewn yr adrannau perthnasol i'r swyddi i ddeall mwy am y swyddi a gofyn unrhyw gwestiynau. Cynhaliwyd rhai yn Llanelli, Rhydaman a Caerfyrddin.

Fel rhan o'r diwrnod recriwtio, aseswyd sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr yn ffurfiol cyn y cyfweiliad. Roedd hyn yn newid diwylliannol a sefydliadol sylweddol, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Roedd yn rhan sylweddol o'r broses sgorio a recriwtio, lle roedd lefelau sgiliau Cymraeg yn hollbwysig wrth sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir yn mynd drwodd i'r cam cyfweiliad.



## Canlyniad

Fe lwyddwyd i recriwtio 25 o brentisiaid sydd bellach wedi ymuno â thimau ar draws amrywiaeth o adrannau, gan gynnwys dysgu digidol, data, cyllid, llyfrgelloedd, hamdden, TG, adnoddau dynnol, fflyd y Cyngor, amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir a chymorth busnes.

Mae recriwtio'r prentisiaid wedi cryfhau capasiti'r gweithlu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun wedi bod yn sail gadarn i bobl ifanc lleol ddatblygu eu sgiliau proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg ac atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith naturiol gwaith o fewn y Cyngor. Yn dilyn yr asesiadau iaith Gymraeg ar y diwrnod recriwtio, nodwyd bod gan 75% o brentisiaid sgiliau Cymraeg ar Lefel 3 neu uwch. Dangosodd hyn fod gan lawer o brentisiaid sylfaen yn yr iaith eisoes a'r potensial i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu rolau.

Isod gwelir rhestr o'r holl weithrediadau roedd y Cyngor wedi gwneud er mwyn sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori o'r diwrnod cyntaf:

- Cyflwynwyd yr holl gyfarchion yn ddwyieithog
- Anfonwyd yr holl ddogfennaeth yn ddwyieithog
- Mynychodd prentisiaid a rheolwyr weithdy **Gweithio mewn Sefydliad Dwyieithog** a darparwyd gan IAITH
- Cyflwynwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg gan Fenter Gorllewin Sir Gâr
- Cafodd yr holl brentisiaid gyfarfod 1-1 gyda'r Ymgynghorydd Dysgu & Datblygu ar gyfer y Gymraeg i ddatblygu cynllun wedi'i bersonoli

- Roedd cyfarfodydd gydag Uwch Arweinwyr y sefydliad yn ddwyieithog ac roedd arweinwyr yn modelu pwysigrwydd y Gymraeg a'u straeon personol
- Er mwyn creu cysondeb, gwelededd a disgwyliad o amgylch ymarfer dwyieithog, cyflwynwyd rhaglen a ariannwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i chyflwyno gan Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gaerfyrddin o Brifysgol Aberystwyth. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni dysgu ar gyfer lefel 1-2, 3-4 a 5.
  - Mynychodd pawb ar Lefel 1-2 raglen ddysgu trochi 3 diwrnod ynglŷn â'u cyflwyno i sylfeini'r Gymraeg
  - Mynychodd pawb ar Lefel 3-4 raglen dysgu trochi 3 diwrnod i adeiladu ar eu hyder
  - Mynychodd pawb ar Lefel 5 raglen Gloywi ddwys 1 diwrnod.

Enillodd Ben Evans, un o'r prentisiaid newydd, wobwr drwy'r Academi Sgiliau Iaith am ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Cafodd Ben ei enwebu gan ei diwtor ac fe fynychodd Seremoni Gwobrau Prentisiaethau i dderbyn ei wobwr. Dywedodd Ben *"mae ennill y wobwr wedi bod yn brofiad anhygoel ac yn hwb hyder go iawn. Fel prentis newydd, mae wedi bod yn hynod o ysgogol cael fy ngwaith yn cael ei gydnabod mor gynnar. Mae wedi fy annog i barhau i ddatblygu fy sgiliau ac i ymgymryd â heriau newydd o fewn y sefydliad. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o dîm sy'n cefnogi prentisiaid ac yn dathlu ein cyflawniadau"*.

### Dyfodol

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd Cyngor Sir Gâr yn parhau i ddatblygu llwybrau cyflogaeth cyfrwng Gymraeg drwy raglenni megis Amdani. Isod gwelir amlinelliad o'r camau nesaf:

#### **Trochi dilynol strwythuredig**

- Cynnig sesiynau trochi dilynol 2–3 diwrnod.
- Archwilio drochi graddol (3 diwrnod + dilynol 2 ddiwrnod).

#### **Datblygu Adnoddau**

- Creu pecynnau cyfeirio cyflym printiedig (ymadroddion cyffredin yn y gweithle, amserau, treigladau).
- Darparu canllawiau ymadroddion gweithle digidol y gellir eu lawrlwytho.

#### **Cryfhau Rhwydwaith Mentora**

- Ffurfioli galw mewn mentora.
- Darparu pecyn cymorth mentor ac arweiniad.

#### **Cefnogaeth Parhaus 1-1**

- Cynnal mynediad at diwtoriaid Prifysgol Aberystwyth.
- Cynnig sesiynau hyder siarad wedi'u targedu ar gyfer siaradwyr pryderus.

#### **Monitro ac Ailasesu**

- Ailasesu hyder a defnydd iaith ym mis Medi 2026.
- Olrhain mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gweithle.

Trwy barhau i fuddsoddi mewn cynlluniau fel Amdani, bydd y Cyngor yn cyfrannu at greu gweithlu dwyieithog cynaliadwy a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith naturiol gwaith o fewn y sefydliad.

## Astudiaeth Achos 2: Sesiynau Arwain Mewn Sefydliad Ddwieithog

### Cefndir

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Academi Cymru wedi bod yn rhedeg rhaglen *Arwain mewn Gwlad Ddwieithog* (LIBC), a ddatblygwyd ochr yn ochr â thîm Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae'r mewnwelediadau o'r rhaglen hon bellach wedi'u teilwra ar gyfer Cyngor Sir Gâr ac maent yn cael eu hwyluso gan HICO. Caiff y sesiynau yma eu trefnu fel rhan o'r gwariant cyllid ychwanegol o dan adran y cytundeb cydweithio oddi wrth Lywodraeth Cymru.


Fe ddatblygwyd y rhaglen i ganolbwyntio ar:

- Helpu'r sefydliad i ddatblygu diwylliant dwieithog mwy cynhwysol
- Myfrio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a pha heriau a wynebir
- Deall sut mae diwylliant yn newid o gwmpas dwieithrwydd mewn gwirionedd
- Ysbrydoli dull newydd, cadarnhaol o ymdrin â'r Gymraeg, a meithrin tîm o lais ar gyfer yr iaith a ddefnyddir am y Gymraeg

### Gweithredu

Cynhaliwyd sesiynau dros dri diwrnod i rannu syniadau, profiadau a gobeithion ynglŷn â dwieithrwydd ac arweinyddiaeth Cymraeg-Saesneg. Yn ystod y sesiynau archwilwyd manteisio a heriau adeiladu diwylliant arweinyddiaeth ddwieithog o fewn timau ac ar draws y sefydliad.

Mae'r isod yn rhoi trosolwg o'r tri diwrnod:



### Canlyniad

Cynhelir sesiynau 'Arwain mewn sefydliad dwieithog' dair gwaith fel y ganlyn:

#### 1. **Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth.**

Gwahoddwyd 21 o swyddogion ac yn ystod y sesiwn hon cytunwyd i gynnal y sesiynau 1-2-1 gyda'r Cabinet a'r sesiwn ar y cyd rhwng y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet.

## **2. Tîm Rheoli Pobl, Digidol a Pholisi**

Gwahoddwyd 30 o swyddogion gyda'r sesiwn ar gyfer y tîm rheoli ehangach o'r Adran Pobl, Digidol a Pholisi sy'n arweinwyr allweddol yn yr agenda hwn. Cynhaliwyd sesiwn ddilynol gyda'r Tîm Rheoli Uwch graidd ar ôl y cyfarfod hwn.

## **3. Sesiynau 1-2-1 gydag Aelodau'r Cabinet**

Cynhaliodd Hugh Irwin sesiynau 1-2-1 gydag aelodau'r Cabinet i baratoi ar gyfer y sesiwn ar y cyd.

## **4. Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet**

Gwahoddodd y gweithdy arweinwyr i ystyried eu perthynas bersonol a chyfunol â'r Gymraeg. Nid oedd yn anelu at archwilio sut i orfodi cydymffurfiaeth yn well na thrafod safonau iaith. Yn hytrach, roedd yn annog chwilfrydedd, empathi, a myfyrio ar sut mae dwyieithrwydd yn cael ei fframio a'i brofi o fewn y Cyngor. Roedd y dull hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac fe'i cynlluniwyd i feithrin eiriolaeth, arweinyddiaeth a hyder diwylliannol.

### Dyfodol

Yn gyffredinol derbyniwyd adborth cadarnhaol gyda'r sesiynau yn optimistaidd. Dangosodd y cyfranogwyr frwdfrydedd gwirioneddol i hyrwyddo'r Gymraeg, dyfnhau empathi a rhannu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau. Byddai dilyn lan a log penderfyniadau yn fuddiol er mwyn cynnal momentwm yn y dyfodol ac yn dathlu llwyddiannau cynnar.

Yn dilyn adborth bellach ac yn hytrach na pharhau â'r fformat a gynlluniwyd, mae'r opsiwn i ail lunio'r sesiynau i fynd i'r afael a rhai materion megis:

- Beth ydym ni'n ei weld fel ein rôl wrth arwain y newid?
- Beth sydd ei angen arnom i wneud hyn yn effeithiol?
- Sut allwn ni gefnogi ein timau trwy'r newid?

## Astudiaeth Achos 3 - Copilot ac AI Cymraeg

### Cefndir

Gall technoleg Gymraeg cywir, dibynadwy ein helpu i gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, sef 1 o 2 brif darged Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Gall technoleg ei gwneud hi'n haws defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd, o addysg a gwaith i sgwrsio gyda ffrindiau a chydweithwyr.

Yn sgil pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus a'r angen i weithio'n fwy effeithlon lansiodd Cyngor Sir Gâr beilot ar Microsoft 365 Copilot yn 2024. Y nod oedd archwilio sut y gallai deallusrwydd artiffisial (AI) gefnogi staff i awtomeiddio tasgau beunyddiol, gwella cynhyrchiant a chryfhau cydweithio.

O safbwynt y Gymraeg, roedd y peilot yn gyfle pwysig i asesu pa mor effeithiol yw Copilot wrth weithio'n ddwyieithog – yn enwedig mewn meysydd megis trawsgrifio cyfarfodydd Teams yn Gymraeg, cynorthwyo gyda drafftio dogfennau dwyieithog, a chefnogi'r Uned Gyfieithu wrth chwilio am gyd-destun a therminoleg.

Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod unrhyw dechnoleg newydd yn cydymffurfio â gofynion diogelu data ac yn alinio â strategaethau digidol a gweithlu'r Cyngor.

### Gweithredu

Dechreuodd y peilot ym Mai 2024 gyda thîm bach o fewn Gwasanaethau Digidol, cyn ehangu i 242 o aelodau staff ar draws gwahanol adrannau ers Medi 2024.

Darparwyd:

- 8 awr o hyfforddiant ffurfiol gan Microsoft a phartneriaid
- Rhwydwaith o "Bencampwyr Copilot" i gefnogi cydweithwyr
- Grwpiau ffocws penodol (e.e. Canolfan Gyswilt, Uned Gyfieithu, Gofal Cymdeithasol)
- Casglu adborth misol i fonitro defnydd a boddhad.

Profwyd Copilot mewn ystod eang o dasgau, gan gynnwys:

- Crynodebau a chofnodion cyfarfodydd
- Drafftio ac ailysgrifennu e-byst
- Creu adroddiadau a briffiau
- Cymharu dogfennau
- Cefnogi gwaith cyfieithu drwy ddarparu cyd-destun ieithyddol.

Cafodd asesiad effaith diogelu data (DPIA) ei gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

### Canlyniad

Dangosodd y peilot fod Copilot yn gallu cyfrannu'n sylweddol at wella effeithlonrwydd:

- 92% o ddefnyddwyr yn defnyddio'r offer yn ddyddiol neu'n wythnosol
- 70% yn nodi gwelliant mewn cynhyrchiant
- 86% yn argymhell Copilot i gydweithiwr

Adroddwyd arbedion amser rhwng 1 a 4 awr y mis ar gyfer tasgau cyffredin, gyda rhai tasgau (megis cymharu dogfennau) yn arbed hyd at 5 awr.

O safbwynt y Gymraeg:


- Mae'r Uned Gyfieithu wedi elwa o allu Copilot i gasglu gwybodaeth am gyd-destun termau yn gyflymach na chwilio traddodiadol ar y we. Buodd dau aelod o staff o'r adran gyfieithu ynghlwm a'r cyfnod treialu a bellach mae ei lleisiau yn destun-i-leferydd niwtral sydd ar gael o fewn Llais Azure AI. Mae lleisiau niwtral yn defnyddio modelau dysgu dwfn datblygedig gan ei wneud yn addas ar gyfer gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Mae defnyddwyr niwroamrywiol wedi nodi buddion wrth brosesu gwybodaeth a strwythuro testun.
- Nodwyd heriau gyda chywirdeb trawsgrifiadau Cymraeg ar Teams, ond gwelwyd gwelliannau dros gyfnod y peilot.

Yn gyffredinol, mae Copilot wedi'i weld fel offeryn cynorthwyol sy'n ategu at sgiliau staff yn hytrach na'u disodli.

### Dyfodol

Wrth edrych tuag ar y dyfodol, mae potensial clir i Copilot ac AI drwy adeiladu ar lwyddiant y cyfnod peilot drwy ehangu defnydd Copilot yn raddol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Ar sail canlyniadau cadarnhaol y treialu, gellir ystyried ei ddefnyddio'n ehangach i gefnogi tasgau megis drafftio dogfennau, crynhoi gwybodaeth a chreu cynnwys yn Gymraeg, gan wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant staff. Er mwyn sicrhau defnydd cyfrifol a chyson, bydd angen datblygu fframwaith safoni a llywodraethu cadarn, gan gynnwys canllawiau clir ar ddefnydd priodol o Copilot yn y Gymraeg, gyda phwyslais ar gynnal ansawdd iaith, cysondeb terminoleg a chydymffurfiaeth â safonau a pholisïau'r Cyngor.

Dylwn fanteisio ar ddatblygiadau parhaus mewn technolegau AI Cymraeg, megis lleisiau Cymraeg Azure, technolegau cyfieithu a datblygiadau lleferydd, er mwyn cryfhau'r profiad dwyieithog i staff a defnyddwyr gwasanaethau. Elfen allweddol o'r cam nesaf fydd datblygu sgiliau a hyder staff, drwy godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant priodol ar sut y gall AI gefnogi defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn y gweithle. Yn y pen draw, dylid ystyried AI fel galluogwr strategol i gynyddu a normaleiddio defnydd y Gymraeg, yn hytrach na'i ddisodli, gan sicrhau aliniad llawn â strategaeth hirdymor y Gymraeg a gweledigaeth ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru.



## Astudiaeth Achos 4 - Partneriaeth Newydd gyda'r Ganolfan Ddysgu

### Cefndir

Yn mis Mehefin 2025 fe lansiodd partneriaeth newydd rhwng Cyngor Sir Gâr a'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Sefydlwyd y bartneriaeth strategol newydd gyda'r Ganolfan er mwyn cefnogi datblygiadau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg yn arbenigo ar ddysgu'r Gymraeg, ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Ddysgu Cymraeg. Yn ogystal â chyrsgau cymunedol ledled y wlad, mae'r Ganolfan yn darparu cynlluniau ar gyfer gwahanol sectorau a grwpiau, gan gynnwys byd addysg, iechyd a gofal a theuluoedd.

Bwriad y bartneriaeth yw bod y Ganolfan yn darparu gwersi a sesiynau Cymraeg amrywiol wedi eu teilwra at anghenion y gweithlu addysg yn Sir Gâr ynghyd â sesiynau Cymraeg Cartref ar gyfer rhieni / gofalwyr a theuluoedd o fewn ysgolion yr awdurdod. Bydd tiwtor Ddysgu Cymraeg penodol i gefnogi'r gweithlu addysg, a bydd tiwtor yn cael ei leoli yn y Cyngor, ar gyfer staff sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc.

Dywedodd Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Cyngor Sir Caerfyrddin, "Rwy'n croesawu'n fawr y bartneriaeth strategol hon gyda'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol fydd yn hynod o bwysig dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r awdurdod symud ymlaen gyda'n dyheadau o ran addysg Gymraeg".



### Gweithredu

Ers ddechrau'r bartneriaeth mae'r Ganolfan wedi gweithio gydag amrywiaeth o ysgolion a staff. Yn ystod tymor yr Haf bu staff y ganolfan yn gweithio gyda chynorthwyr ar draws ysgolion Bro Dinefwr.

Cynhaliwyd awdit staff yn Ysgol Bro Dinefwr, sydd wedi arwain at ddau aelod o staff y ganolfan yn gweithio gyda staff sydd ar wahanol lefelau yn yr ysgol, gyda'r ddarpariaeth wedi ei deilwra yn ôl grwpiau penodol. Mae staff lefel sylfaen a mynediad yn cael sesiynau amser cinio ar ôl ysgol, a staff lefel magu hyder yn cael sesiynau yn ystod y prynhawn unwaith bob pythefnos.

Erbyn hyn, mae pum ysgol gynradd ar daith trawsnewid. Mae staff y ganolfan wedi adolygu lefelau ac yn cynnal tua thri i bum sesiwn gychwynnol gyda grwpiau bach o staff yn yr ysgolion yma, gyda'r sesiynau wedi eu teilwra yn benodol i anghenion yr unigolion.

Elfen arall o'r bartneriaeth yma yw bod y ganolfan wedi bod yn gweithio gyda naw aelod o staff cynorthwyol o Ganolan Elfed, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth.

### Canlyniad

Gyda'r bartneriaeth newydd ei sefydlu yn 2025, mae'n rhy gynnar i adolygu effaith lawn y bartneriaeth gan fod y gwaith gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn ei ddyddiau cynnar. Fodd bynnag, prif effaith y sesiynau hyd yn hyn yw bod staff llawer yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle sy'n adlewyrchu llwyddiant cychwynnol y bartneriaeth.

### Dyfodol

O ran y dyfodol, y gobaith yw byddwn yn parhau i allu sicrhau cyllid fel bod modd i ni allu rhyddhau staff i barhau ar eu siwrnai gwella ieithyddol, ac edrych i ymestyn a gallu cynnig y ddarpariaeth i ystod fwy eang o ysgolion yn Sir Gâr.

## Astudiaeth Achos 5 – Pentre Awel

### Cefndir

Mae Pentre Awel yn ddatblygiad arloesol, y cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru, wedi'i gynllunio i integreiddio cyfleusterau hamdden, busnes, iechyd, ymchwil, addysg, byw â chymorth a gwesty mewn un lleoliad. Wedi'i seilio ar gysyniad Gweithio-Dysgu-Byw-Chwarae, bydd Pentre Awel yn creu system eco unigryw ar gyfer iechyd a gwyddorau bywyd ar draws 4 parth y gellir eu datblygu:

- Parth 1 (Canolfan): Cyfleusterau hamdden, addysg, ymchwil, gofal a datblygu busnes
- Parth 2: Cartref nyrsio/preswyl, gofal ychwanegol a byw â chymorth
- Parth 3: Cyfleusterau byw â chymorth a datblygu busnes
- Parth 4: Gwesty a Thai

### Gweithredu

Agorodd y parth cyntaf, sef y Ganolfan ei ddrysau ar y 15fed o Hydref 2025 yn dilyn camau cynllunio meistr, dylunio, cynllunio ac adeiladu helaeth. Ystyriwyd yr Iaith Gymraeg ar ddechrau'r prosiect gydag Asesiad Effaith penodol ar yr Iaith Gymraeg yn cael ei gynnal i lywio Cynllun Gweithredu. Yn unol â Chymraeg 2050: mapiwyd gweithgaredd ar draws pob cam o'r datblygiad yn erbyn y tair thema strategol, fel y dangosir isod.

 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg	 3. Creu amodau ffafriol
<ul style="list-style-type: none"><li>•Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant (<i>Parth 1</i>)</li><li>•Ymgysylltu ag Ysgolion (<i>Parthau 1, 2, 3, 4</i>)</li><li>•Byw â Chymorth (<i>Parthau 2 a 3</i>)</li><li>•Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal (<i>Parth 2</i>)</li><li>•Tai Fforddiadwy a Chymdeithasol (<i>Parth 2</i>)</li><li>•Tai (<i>Parth 4</i>)</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Hamdden (<i>Parth 1</i>)</li><li>•Iechyd (<i>Parth 1</i>)</li><li>•Busnes (<i>Parthau 1 a 3</i>)</li><li>•Ymchwil ac Arloesi (<i>Parthau 1 a 3</i>)</li><li>•Byw â Chymorth (<i>Parthau 2 a 3</i>)</li><li>•Gwesty a Thai (<i>Parth 4</i>)</li><li>•Ymgysylltu cymunedol (<i>Parthau 1, 2, 3, 4</i>)</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Seilwaith / cyfleusterau (<i>Parthau 1, 2, 3, 4</i>)</li><li>•Caffael (<i>Parthau 1, 2, 3, 4</i>)</li><li>•Rhaglen buddion cymunedol (<i>Parthau 1, 2, 3, 4</i>)</li><li>•Addysg Bellach ac Uwch (<i>Parth 1</i>)</li><li>•Deori a chymorth busnes (<i>Parthau 1 a 3</i>)</li></ul>

### Canlyniad

Yn ymarferol, mae hyn wedi arwain at:

- Arddangosfeydd cyhoeddus gyda siaradwyr a deunyddiau dwyieithog yn ystod y cyfnod cynllunio amlinellol
- Datblygu fideo hyrwyddo Cymraeg gan Sgript, a ddangosir i bob isgontractwyr a gweithiwr adeiladu fel rhan o'u cyflwyniad ar y safle. Ffordd o godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Sir Gâr a phwysigrwydd y Gymraeg.
- Mynychodd Bouygues (y contractiwr ar y safle) Eisteddfod yr Urdd 2023, y tro cyntaf i'r cwmni ei wneud. Drwy gydol yr wythnos, cynhaliwyd sesiynau arddull Minecraft ar thema'r amgylchedd adeileidig.
- Cynigwyd gwersi iaith Gymraeg i staff Bouygues.
- Cyhoeddwyd cylchlythyr cymunedol adeiladu yn ddwyieithog i eiddo o amgylch yr ardal ddatblygu. Roedd y cylchlythyr yn gyfle i Bouygues a Chyngor Sir Caerfyrddin gyfleu gwybodaeth bwysig am y prosiect i tua 300 o eiddo drwy lythyr a llawer mwy o randdeiliaid

(sefydliadau, unigolion) yn electronig. Er enghraifft, cerrig milltir allweddol, cynnydd adeiladu, gweithgareddau budd cymunedol.

- Prosiect Dysgu Byd Go lawn gyda 5 ysgol yn Llanelli gan gynnwys Ysgol y Strade. Gosodwyd her ddylunio i ddisgyblion i ddatblygu gofod busnes, cartref nyrsio neu westy, gyda chefnogaeth tîm amlddisgyblaethol proffesiynol Bouygues. Cymerodd y disgyblion rôl penseiri, syrfewyr meintiau, peirianwyr sifil a chynllunwyr. Cyflwynwyd eu dyluniadau terfynol mewn amgylchedd 'Dragons Den'.
- Arwyddion a negeseuon dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'r Ganolfan.
- Cerddoriaeth ddwyieithog yn cael ei chwarae y tu mewn i'r Ganolfan.
- Digwyddiad dwyieithog wedi'i gynllunio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi 2026.



### Dyfodol

Mae'r Cyngor yn bwrw mlaen â gwaith gosod Canolfan Cyflenwi Clinigol ac Ymchwil Hywel Dda, gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2026. Mae gofod Busnes ac Arloesi'r Ganolfan hefyd yn cael ei ddylunio gyda'r bwriad o ddarparu cymysgedd o swyddfeydd bach, canolig a mawr ar gyfer busnesau newydd a sefydledig o fewn y sectorau gwyddorau bywyd, iechyd, lles a gofal cymdeithasol. Bydd y cwmnïau yn cael eu cefnogi i sefydlu arferion busnesa da, er enghraifft gwasanaethau dwyieithog, brandio ac arwyddion dwyieithog, marchnata, recriwtio a datblygu'r gwefannau drwy'r iaith Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu dyluniad parthau 2 a 3 a fydd yn dwyn ynghyd gofal nyrsio, preswyl, gofal ychwanegol a byw annibynnol ar un safle. Mae gwaith yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â pharth 4 sef y Gwesty ac mae'n ymgysylltu â darpar gweithredwyr / datblygwyr gwestai drwy ymarfer caffael deialog gystadleuol. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y cyfnod/au hyn yn y dyfodol, gan gynnwys ymgorffori'r polisi 'mwy na geiriau' o fewn arferion gwaith.

